# Llywodraeth Cymru
# Cynnig Lleoliad Prosiect Ymchwil mewn Ymarfer

Cynllun gwarcheidiaeth ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru?

## Crynodeb o'r prosiect

Yn dilyn y briff ar y cyd gan Sefydliad Bevan, Canolfan Gyfreithiol Plant Cymru, TGP Cymru, a Chymdeithas y Plant, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar sut mae'r plant hyn yn ymdrin â'r broses ceisio lloches a'r gefnogaeth y maent yn ei chael. Bydd yr adolygiad yn cymharu cynlluniau gwarcheidiaeth ar draws Aelod-wladwriaethau'r UE ac yn darparu adolygiad penodol o gynllun gwarcheidiaeth yr Alban i lywio dull gweithredu sydd wedi'i deilwra i Gymru. Bydd yn asesu a oes gan weithwyr proffesiynol brofiad digonol o'r broses ceisio lloches ac yn nodi heriau fel ynysigrwydd, mynediad at gyngor cyfreithiol, gwahaniaethau mewn cymorth, a risgiau o gyfnodau o fod ar goll neu gam-fanteisio. Archwilir hefyd effeithiolrwydd rolau statudol, gan gynnwys Cynghorwyr Personol ac eiriolwyr.

## Gwybodaeth am Leoliadau Ymchwil mewn Ymarfer Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru ac mae'n gyfrifol am yr economi, addysg, trafnidiaeth, iechyd a GIG Cymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd yng Nghymru.

Mae lleoliad yn Llywodraeth Cymru yn gyfle unigryw i weithio ochr yn ochr â swyddogion polisi ac ymchwilwyr, gan gymhwyso eich sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi byw. Cewch gyfle i ddatblygu ystod o sgiliau ymchwil tra'n dyfnhau eich dealltwriaeth o sut mae tystiolaeth yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

Yn ystod cyfnod y lleoliad, byddwch yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau o broffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Mae Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn darparu cyngor dadansoddol uchel ei ansawdd a thystiolaeth annibynnol i lywio penderfyniadau allweddol ym maes polisi. Mae eu gwaith yn

cefnogi'r cylch polisi llawn—o ddeall a datblygu hyd at weithredu, monitro a gwerthuso. Bydd myfyrwyr ar leoliadau hefyd yn cyfrannu at ymdrechion ehangach i gefnogi cyd-weithwyr ym maes polisi i lywio a chyflawni polisi effeithiol.

## **Y Prosiect:** Cynllun gwarcheidiaeth ar gyfer plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru?

*Y Cefndir*

Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi argymell Gwasanaeth Gwarcheidiaeth ers dros ugain mlynedd. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae gan blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yr un hawliau â phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys mynediad i gynghorwyr personol, eiriolwyr, iechyd, addysg, a chymorth trydydd sector fel y Rhaglen Hawliau Lloches. Mae'r Cynllun Cenedl Noddfa (2019) ac ymrwymiadau gweinidogol dilynol wedi blaenoriaethu archwilio gwasanaeth gwarcheidiaeth i asesu'r cymorth a'r bylchau ar hyn o bryd i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae angen ymchwil i benderfynu sut y gallai gwasanaeth gwarcheidiaeth cenedlaethol yng Nghymru wella cymorth i blant ar eu hunain sy'n ceisio lloches wrth iddynt ymdrin â phrosesau ceisio lloches, lleihau risgiau fel cam-fanteisio a throseddu, ac ategu'r rolau statudol presennol.

*Nodau ac Amcanion*

Cynnal adolygiad o'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth berthnasol ynghylch sut mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn cael eu cefnogi o dan ddeddfwriaeth gyfredol Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o lywio'r broses o ddatblygu ymgynghoriad ffurfiol a/neu ymarfer dadansoddi opsiynau polisi ynghylch yr angen am gynllun gwarcheidiaeth ar gyfer y plant hyn yng Nghymru.

*Canlyniadau disgwyliedig y prosiect*

- Adroddiad cynhwysfawr sy'n syntheseiddio ac yn crynhoi canfyddiadau o ddadansoddiadau data academaidd, llenyddiaeth lwyd a data eilaidd gan ddefnyddio data presennol ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, cynghorwyr personol a gwasanaethau eirioli
- Cyflwyno'r canfyddiadau i'r timau polisi a dadansoddi perthnasol

*Dulliau*

Er mwyn cyflawni'r prosiect hwn, mae'r interniaeth yn debygol o gynnwys:

- Ymgysylltiad â swyddogion polisi i fireinio cwestiynau ymchwil
- Adolygiadau o'r dystiolaeth bresennol gan gynnwys gwerthusiadau, ymchwil academaidd a llenyddiaeth lwyd sy'n amlinellu sut mae plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn ymdrin â'r system ceisio lloches yng Nghymru
- Sut mae modelau gwarcheidiaeth yn yr Alban ac ar draws yr UE yn cymharu o ran diwallu anghenion plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches
- Adolygiad o'r data presennol sy'n ymwneud ag eiriolwyr, cynghorwyr personol a phlant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches i bennu cyfleoedd ar gyfer dadansoddi mynediad at wasanaethau

Bydd y prosiect yn tynnu'r wybodaeth hon at ei gilydd i ddarparu trosolwg o'r dystiolaeth sy'n ymwneud â sut mae'r ddarpariaeth statudol gyfredol yn diwallu anghenion plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches a pha fylchau yn y gwasanaethau presennol sy'n bodoli a sut y gall y bylchau hyn gyfrannu at risgiau fel camfanteisio a throseddu.

*Sgiliau*

Rydym yn croesawu unigolion sy'n gallu dod â'r sgiliau a'r profiad canlynol i'r rôl:

- Y gallu i gynnal trafodaethau â thimau polisi i ddeall eu hanghenion ac i gynnal ymchwil desg ar ffactorau perthnasol
- Sgiliau cadarn o ran adolygu llenyddiaeth a gwerthuso tystiolaeth, gan gynnwys y gallu i gyfuno ystod eang o dystiolaeth
- Sgiliau dadansoddi cryf, gyda'r gallu i asesu a dehongli data meintiol ac ansoddol yn feirniadol
- Y gallu i werthuso canfyddiadau ymchwil a'u cymhwyso i gyd-destun polisi Cymru
- Y gallu i lunio adroddiadau cryno, gan gyflwyno tystiolaeth gymhleth mewn fformat hygyrch

## Amserlenni'r lleoliad

Bydd y lleoliad yn para am gyfnod o 3 mis. Disgwylir i'r lleoliad ddechrau heb fod yn gynharach na mis Mai 2026.

Bydd y dyddiad dechrau yn cael ei drafod â'r ymgeisydd llwyddiannus ac efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

## Cyllid a threuliau

Mae'r cyfle hwn ar agor dim ond i fyfyrwyr a ariennir drwy gynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (a ddyfernir ers mis Hydref 2024) y mae'n ofynnol iddynt gwblhau lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer. Mae'r lleoliad yn ddi-dâl, fodd bynnag, byddwch yn parhau i dderbyn eich ariantal ESRC. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu talu unrhyw gostau adleoli sy'n gysylltiedig â'r lleoliad.

Gellir hawlio costau teithio a chynhaliaeth rhesymol yr eir iddynt wrth gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, yn amodol ar gytundeb ymlaen llaw â goruchwyliwr y lleoliad ac yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth Llywodraeth Cymru.

## Trefniadau gweithio

Oriau gweithio Llywodraeth Cymru yw 37 awr yr wythnos, 7 awr 24 munud y diwrnod ar gyfartaledd. Gyda chytundeb ymlaen llaw â goruchwyliwr y lleoliad, efallai y byddwch yn gallu gweithio oriau hyblyg yn unol ag arferion Llywodraeth Cymru. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, efallai y bydd y lleoliad hwn ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy, i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, dylech nodi'r oriau gweithio a ffefrir ar y ffurflen gais.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng y cartref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod y lleoliad. Gall hyn newid, gan ddibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau gweithio yn cael eu trafod â'r ymgeiswyr llwyddiannus.

## Gofynion cenedligrwydd a fetio diogelwch

I fod yn gymwys ar gyfer y lleoliad hwn yn Llywodraeth Cymru, rhaid bodloni Rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni fydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu ymgymryd â lleoliad.

Bydd hi'n ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus gael eu fetio gan Lywodraeth Cymru (mae hyn yn berthnasol i staff dros dro ynghyd â staff parhaol). Bydd hyn yn cynnwys cwblhau ffurflen gais gwiriad y Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect lleoliad hwn, dyma'r manylion cyswllt:
*gwen.brown006@llyw.cymru*

Os hoffech wybodaeth am gyfleoedd lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer yn Llywodraeth Cymru, cysylltwch â:
Katy Marrin a James Carey, Cyd-benaethiaid Cynllunio Gweithlu a Safonau Proffesiynol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth
PennaethCynllunioGweithluSafonauProffesiynolGSR@llyw.cymru

Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â Lleoliadau Ymchwil mewn Ymarfer, cysylltwch â:
Sian Shepherd yn Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru
esrcrip@bangor.ac.uk